Archwilio Cymru
Audit Wales

# Trawsnewid Digidol

Iechyd a Gofal Digidol Cymru

Gorffennaf 2026

# Amdanom ni

Rydym wedi paratoi a chyhoeddi'r adroddiad hwn dan adran 61(3) (b) Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.


## © Archwilydd Cyffredinol Cymru 2026

Gallwch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys logos ac eithrio fel rhan annatod o'r ddogfen) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng.

Os byddwch yn ei ailddefnyddio, rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir a rhaid i chi beidio â gwneud hynny mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid i'r deunydd gael ei gydnabod fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid i chi roi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle'r ydym wedi nodi unrhyw ddeunydd y mae'r hawlfraint ynddo'n eiddo i drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.


## Os oes arnoch angen unrhyw help gyda'r ddogfen hon

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth, neu os oes arnoch angen unrhyw un neu rai o'n cyhoeddiadau mewn fformat neu iaith arall:

- ffoniwch ni ar 029 2032 0500
- anfonwch neges e-bost atom yn post@archwilio.cymru

Gallwch ddefnyddio Cymraeg neu Saesneg pan fyddwch yn cysylltu â ni – fe ymatebwn ninnau yn yr iaith a ddefnyddiwyd gennych chi.

Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Mae Archwilio Cymru yn dilyn y safonau archwilio perfformiad rhyngwladol a gyhoeddwyd gan Sefydliad Rhyngwladol y Sefydliadau Archwilio Goruchaf (INTOSAI).

# Cynnwys

Ciplun archwiliad 4

Ffeithiau a ffigyrau allweddol 7

Ein canfyddiadau 8

Argymhellion 22

Atodiadau 24

1 Ynglŷn â'n gwaith 25

2 Ffurflen Ymateb y Rheolwyr 28

3 Termau allweddol yn yr adroddiad hwn 33

# Ciplun archwiliad

## Yr hyn y gwnaethom fwrw golwg arno

1 Fe wnaethom ystyried sut y mae dull trawsnewid digidol mewnol Iechyd a Gofal Digidol Cymru (IGDC) o gymorth i wella gwasanaethau. Wrth hyn, rydym yn golygu sut y mae'n defnyddio digidol, data, a thechnoleg i wella ei wasanaethau a'i weithrediadau ei hun. Roedd hyn yn cynnwys dull y sefydliad o ddatblygu strategaeth, arweinyddiaeth a sgiliau. Fe wnaethom hefyd ystyried sut y mae'n rheoli risgiau mewn perthynas â seilwaith digidol, seibergadernid a Deallusrwydd Artiffisial (AI).

2 Er bod yr adolygiad hwn yn canolbwyntio ar weithrediadau mewnol IGDC, mae rhai testunau'n gysylltiedig â'i gyfrifoldebau digidol cenedlaethol ehangach. Rydym yn bwriadu adolygu arweinyddiaeth genedlaethol ar wasanaethau a chyflawni rhaglenni digidol ar wahân yn ddiweddarach eleni.

## Pam fod hyn yn bwysig

3 Mae technoleg ddigidol yn ffactor galluogi allweddol ar gyfer llawer o'r nodau yn Cymru Iachach. Mae'r cynllun hwnnw'n dweud y bydd technolegau a dulliau digidol newydd yn rhan bwysig o'r drefn system gyfan ar gyfer iechyd a gofal yn y dyfodol.

4 Fodd bynnag, mae cyflawni trawsnewid digidol yn gryn her. Mae'n galw am fuddsoddiad, y seilwaith cywir, ac ymgysylltu â staff a'u hyfforddi. Mae angen i systemau gyfathrebu gyda'i gilydd a rhaid i sefydliadau reoli risgiau bythol gynyddol mewn perthynas â seibergadernid.

5 Nid oes a wnelo trawsnewid digidol â thechnoleg yn unig. Mae a wnelo â diwylliant ac arweinyddiaeth. Mae gan fyrddau cyrff y GIG rôl allweddol o ran cymeradwyo a pherchnogi strategaeth ddigidol y sefydliad. Mae ar fyrddau angen sicrwydd hefyd bod trawsnewid digidol yn cael ei reoli'n ddiogel ac yn effeithiol, a bod buddsoddiad yn sicrhau'r manteision bwriadedig.

## Yr hyn yr ydym wedi'i ganfod

6 IGDC sy'n arwain gwaith digidol ar ran GIG Cymru, gan ganolbwyntio ar systemau a rhaglenni cenedlaethol. Fodd bynnag, mae ei Strategaeth Sefydliadol yn rhoi llai o sylw i'w anghenion digidol mewnol ei hun. Mae ei Gynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI) yn cynnig mwy o fanylder ynghylch gwelliannau mewnol ond nid yw'n esbonio'n glir beth yw'r manteision na'r deilliannau a ddisgwylir.

7 Mae'r Bwrdd yn cael adroddiadau rheolaidd, ond mae'r rhain yn cwmpasu rhaglenni cenedlaethol yn bennaf. Mae goruchwyliaeth ar drawsnewid digidol mewnol yn wannach. Golyga hyn nad yw'r Bwrdd yn gallu tracio cynnydd, costau a manteision yn fanwl. O ganlyniad, mae ganddo lai o hyder bod buddsoddiadau mewnol yn darparu gwerth.

8 Mae IGDC yn cefnogi gwaith ar seiberddiogelwch a thechnolegau datblygol fel deallusrwydd artiffisial. Fodd bynnag, mae adroddiadau'n canolbwyntio'n bennaf ar risgiau ar draws GIG Cymru i gyd, gyda llai o sylw i seilwaith a risgiau seiber IGDC ei hun. O ganlyniad, mae'n anos adnabod a rheoli risgiau mewnol.

9 Mae IGDC yn bwriadu cryfhau sgiliau digidol ei weithlu, ond mae ei ddull yn dal i ddatblygu. Mae wedi gwneud cynnydd o ran asesu gallu'r gweithlu, ond mae hyn wedi bod yn arafach nag a fwriadwyd. O ganlyniad, mae IGDC yn dal i beidio â deall yr holl fylchau allweddol mewn sgiliau nac ymdrin â hwy yn llawn, a allai effeithio ar ei allu i gyflawni trawsnewid digidol yn effeithiol.

10 Mae ansicrwydd ariannol yn gwneud trawsnewid digidol mewnol yn anos. Mae'r rhan fwyaf o gyllid yn fyrdymor ac yn canolbwyntio ar systemau cenedlaethol, sy'n lleihau hyblygrwydd ar gyfer buddsoddi mewnol. Nid yw adroddiadau ariannol yn gwahaniaethu'n glir rhwng gwariant mewnol a chenedlaethol, gan gyfyngu ar dryloywder a sicrwydd.

# Yr hyn yr ydym yn ei argymell

11 Rydym wedi cyflwyno chwe argymhelliad i IGDC sy'n canolbwyntio ar:

- Eglurhau blaenoriaethau digidol mewnol, gan gynnwys mesurau, cerrig milltir, perchnogaeth, a deilliannau.
- Datblygu cynllun cynhwysfawr, wedi'i gostio ar gyfer trawsnewid digidol mewnol.
- Cryfhau gallu'r gweithlu digidol.
- Eglurhau cyllid a fforddiadwyedd hirdymor ar gyfer trawsnewid digidol mewnol ochr yn ochr ag ymrwymiadau cenedlaethol.
- Cryfhau atebolrwydd ar ôl cau rhaglenni i sicrhau bod gwelliannau'n cael eu cynnal.
- Cryfhau gwaith i werthuso manteision a gwerth am arian.

# Ffeithiau a ffigyrau allweddol

- Dim ond 34 o staff IGDC sydd wedi cwblhau offeryn hunanwerthuso rhyngweithiol Addysg a Gwella Iechyd Cymru fel rhan o'r Fframwaith Gallu Digidol.

- Rhwng mis Tachwedd 2025 a mis Ionawr 2026, fe adroddwyd am 22 o ddigwyddiadau seiber, y gwnaeth pump ohonynt effeithio ar IGDC. Roedd hyn yn cynnwys un digwyddiad difrifol ym mis Ionawr 2026, y bu'n rhaid adrodd amdano dan y Rheoliadau Systemau Rhwydwaith a Gwybodaeth.

- Rhoddodd adolygiad Archwilio Mewnol o drefniadau seiberddiogelwch IGDC ym mis Chwefror 2026 sgôr sicrwydd rhesymol ar y cyfan.

- Yn 2025, roedd hunanasesiad IGDC yn dynodi ei fod ar lefel 4 Model Mabwysiadu Seilwaith (INFRAM) y Gymdeithas Systemau Gwybodaeth a Rheoli Gofal Iechyd (HIMSS), sy'n dynodi seilwaith digidol sefydledig a reolir yn gyson.

# Ein canfyddiadau

## Strategaeth, cynllunio ac arweinyddiaeth

**Mae IGDC yn darparu arweinyddiaeth strategol dda ond mae arno angen cynlluniau mwy eglur ar gyfer ei drawsnewid digidol ei hun. Mae arno angen ffordd fwy effeithiol o dracio cynnydd a manteision hefyd**

### Strategaeth a chynlluniau digidol

12 Nid oes gan IGDC ei strategaeth trawsnewid digidol ei hun. Mae ei Strategaeth Sefydliadol 2024-40 yn dweud bod ar y sefydliad angen ffyrdd symlach o weithio, trefniadau llywodraethu gwell, technoleg fodern, a sgiliau digidol cryfach. Ond nid yw'n rhoi rhyw lawer o fanylion am flaenoriaethau na bylchau digidol mewnol. Nid yw'r strategaeth yn egluro lefel aeddfedrwydd digidol IGDC, am ei fod wedi cwblhau hunanasesiad INFRAM HIMSS yn 2025. Yn ôl ei asesiad ei hun roedd ar Lefel 4.[1]

13 Mae Cynllun Tymor Canolig Integredig IGDC 2025-28 yn rhoi rhagor o wybodaeth am ei ddull mewnol o ran cyflawni digidol trwy'r Rhaglen Adeiladu Ein Dyfodol (gweler **paragraffau 48, 49 a 50**). Fe gaeodd y rhaglen tuag at ddiwedd 2025. Roedd wedi'i bwriadu i gyflwyno model gweithredu newydd, ailddylunio sgiliau, gwella cynhyrchion digidol, a defnyddio mwy o ddeallusrwydd artiffisial. Er gwaethaf hyn, dylai IGDC egluro manteision a nodau'n fwy clir yn y CTCI a rhoi manylion penodol trawsnewid digidol mewnol.

[1] Mae lefel 4 modwl INFRAM HIMSS yn golygu bod y sefydliad yn rheoli trwy brosesau, rheolaethau a threfniadau llywodraethu y cytunwyd arnynt.

## Perchnogaeth y Bwrdd ar drawsnewid digidol

14 Mae Bwrdd IGDC yn dangos perchnogaeth gref ar ei Strategaeth Sefydliadol, CTCI, a thrawsnewid digidol mewnol. Mae ganddo brosesau da i ddatblygu'r rhain sy'n cynnwys staff, partneriaid a rhanddeiliaid.

15 Mae IGDC yn defnyddio sesiynau datblygu'r Bwrdd i roi sylw i drawsnewid digidol. Hyd yma, mae'r sesiynau wedi ymdrin â'r Rhaglen Adeiladu Ein Dyfodol a Strategaeth Deallusrwydd Artiffisial newydd y sefydliad. Mae'r sesiynau hefyd wedi helpu aelodau'r Bwrdd i ddeall model gweithredu cynnyrch IGDC. Mae a wnelo'r model hwn â datblygu a chefnogi cynhyrchion digidol, nid timau seiliedig-ar-raglenni traddodiadol.

16 Mae IGDC yn mynychu cyfarfodydd Cyfarwyddwyr Digidol y GIG a'r Rhwydwaith Digidol Aelodau Bwrdd Annibynnol Cymru Gyfan. Mae'r cyfarfodydd hyn yn cefnogi dysgu ac arfer da ac yn galluogi IGDC i fod yn rhan o drafodaethau digidol cenedlaethol. Mae hyn yn helpu i siapio cynlluniau digidol IGDC ac yn rhoi mwy o gyd-destun i'r Bwrdd ar gyfer goruchwylio a herio.

## Rolau, cyfrifoldebau ac atebolrwydd

17 Mae gan IGDC arweinwyr ymrwymedig sy'n ysgogi newid a gwelliannau digidol. Mae gan aelodau'r Bwrdd brofiad o'r sector cyhoeddus a'r sector preifat. Mae'r Bwrdd yn adolygu ei sgiliau i wneud yn siŵr bod ganddo'r wybodaeth iawn i wneud ei waith. Mae IGDC yn rhannu cyfrifoldeb am ddigidol ar draws nifer o rolau cyfarwyddwyr.

18 Mae gan IGDC systemau i oruchwylio trawsnewid digidol, ond gallent fod yn gryfach. Mae'r Bwrdd yn cael diweddariadau rheolaidd am y Strategaeth Sefydliadol, cyflawni'r CTCI, a'r Rhaglen Adeiladu Ein Dyfodol. Mae'r adroddiadau hyn yn egluro pa waith sy'n digwydd a sut y mae'n cyd-fynd â blaenoriaethau IGDC. Ond nid ydynt yn rhoi rhyw lawer o fanylion i ddynodi pa mor dda y mae pethau'n cael eu cyflawni na pha un a yw manteision yn cael eu gwireddu.

# Adnabod a rheoli risgiau

**Mae IGDC yn deall risgiau digidol cenedlaethol, ond nid oes ganddo oruchwyliaeth eglur ar yr holl risgiau mewnol. Mae bylchau'n dal i fodoli mewn prosesau adrodd, cynllunio, a sicrwydd ar gyfer ei weithrediadau digidol ei hun**

## Risgiau digidol strategol

19 Mae Fframwaith Sicrwydd Bwrdd IGDC yn canolbwyntio'n bennaf ar risgiau lefel uchel, allanol sy'n gysylltiedig â'r Strategaeth Sefydliadol a'r CTCI. O ganlyniad, mae'n rhoi llai o sylw i risgiau cyflawni trawsnewid digidol mewnol, er ei fod yn crybwyll y Rhaglen Adeiladu Ein Dyfodol.

20 Gall y Bwrdd weld y prif risgiau a chamau gweithredu, ond mae adroddiadau'n canolbwyntio ar weithgarwch yn hytrach na dangos a yw'r camau gweithredu hynny'n mynd mor bell â lleihau risg. Byddai cynlluniau mewnol mwy eglur ac adrodd yn well ar effaith camau gweithredu'n helpu'r Bwrdd i oruchwylio a rheoli risgiau i drawsnewid digidol mewnol yn fwy effeithiol.

## Risgiau yn y seilwaith digidol

21 Mae'r Strategaeth Sefydliadol a'r CTCI yn canolbwyntio'n bennaf ar seilwaith digidol ar gyfer GIG Cymru. Golyga hyn fod Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn rhoi llai o sylw i risgiau yn seilwaith mewnol IGDC ei hun. Oherwydd hyn, nid oes gan IGDC olwg glir ar y prif fylchau yn ei seilwaith digidol mewnol na chynllun eglur i'w llenwi. Mae swyddogion yn rhedeg rhaglen dreigl i ddisodli systemau sydd wedi dyddio a diweddaru seilwaith digidol, megis rhaglen drawsnewid y Cwmwl ac ailddatblygu'r Gwasanaeth Integreiddio. Fodd bynnag, nid ydynt yn adrodd yn rheolaidd wrth y pwyllgor perthnasol ar gynnydd cyfunol.

## Seibergadernid

22 Mae IGDC yn cefnogi GIG Cymru trwy letya Uned Seibergadernid Llywodraeth Cymru a helpu sefydliadau ledled Cymru i wella seibergadernid. Ochr yn ochr â'i rôl genedlaethol, mae IGDC hefyd yn rheoli ei risgiau seiber ei hun.

23 Mae IGDC wedi defnyddio'r Fframwaith Asesu Seiber i archwilio ei drefniadau seiberddiogelwch. Fe wnaeth yr archwiliad cyntaf ym mis Hydref 2023 fwrw golwg ar 24 o'r 39 o amcanion y Fframwaith Asesu Seiber. Roedd IGDC yn cyflawni 19 o'r amcanion yn llawn, yn cyflawni 2 yn rhannol, ac yn peidio â chyflawni 3 amcan. Canfu'r archwiliad fylchau o ran rheoli risgiau ac ymateb i ddigwyddiadau seiber yn y gadwyn gyflenwi. Fe gwblhaodd IGDC ragor o archwiliadau ym mis Mehefin a mis Awst 2025 i roi sylw i'r amcanion a oedd yn weddill. Nid yw wedi adrodd ar y canlyniadau hynny eto. Mae IGDC yn bwriadu cynnal ail-archwiliad llawn ym mis Awst 2026.

24 Mae adroddiadau seiber i'r Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol yn ymdrin â materion seiber rheolaidd. Maent yn dangos bod IGDC yn adrodd yn dda am ddigwyddiadau mewnol ac allanol, ond bod digwyddiadau seiber yn dal i fod yn her barhaus. Rhwng mis Tachwedd 2025 a mis Ionawr 2026, adroddodd IGDC am 22 o ddigwyddiadau seiber, gyda phump yn effeithio'n uniongyrchol arno. Fe waeth un digwyddiad difrifol darfu dros dro ar fynediad at system genedlaethol, ac fe adroddodd IGDC yn brydlon ar hyn dan y Rheoliadau Systemau Rhwydwaith a Gwybodaeth. Dengys adroddiadau dilynol fod IGDC yn gweithredu.

25 Mae'r adroddiadau seiber hefyd yn amlygu risgiau a materion eraill y mae angen rhoi sylw parhaus iddynt. Mae'r rhain yn cynnwys rheoli mynediad at systemau, a pha mor dda y gall systemau ddod atynt eu hunain os ceir problemau. Mae'r adroddiadau'n dangos gweithgarwch seiber yn glir ac yn darparu peth sicrwydd. Fodd bynnag, nid ydynt yn egluro effaith digwyddiadau na pha mor dda y mae rheolaethau'n gweithio. Mae adroddiadau diweddar yn dangos mwy o ffocws gan IGDC ar risgiau seiber GIG Cymru, sy'n adlewyrchu ei fwriad i godi ymwybyddiaeth genedlaethol o'r rhain. Fodd bynnag, mae'r safbwynt ehangach hwn wedi arwain at lai o amlygrwydd i risgiau yn seilwaith a risgiau seiber IGDC ei hun yn yr adroddiadau hyn.

26 Mae gan IGDC strwythur eglur ar gyfer seiberddiogelwch. Y Prif Swyddog Diogelwch Gwybodaeth sy'n arwain y tîm, gyda chymorth Pennaeth Seiberddiogelwch, Arweinydd Sicrwydd Seiber, ac Arweinydd Cydymffurfio Seiber. Nid ydym wedi adolygu lefelau staffio, ond mae adroddiadau diweddar yn awgrymu bod pwysau cynyddol ar staff seiberddiogelwch.

27 Rhoddodd adolygiad Archwilio Mewnol o drefniadau seiberddiogelwch Iechyd a Gofal Digidol Cymru ym mis Chwefror 2026 sgôr sicrwydd rhesymol. Canfu fod gan IGDC arweinyddiaeth a threfniadau eglur i reoli risgiau seiber, gydag adroddiadau rheolaidd a gwaith gwella parhaus. Fodd bynnag, fe wnaeth hefyd amlygu risgiau seiber cynyddol ac fe ddywedodd fod angen i wiriadau ar rai cyflenwyr wella.

## Deallusrwydd artiffisial

28 Mae IGDC yn cydnabod potensial Deallusrwydd Artiffisial i wella iechyd a gofal. O'i ddefnyddio'n dda, gallai gefnogi prosesau penderfynu gwell, arbed amser, a lleihau pwysau ar staff. Fodd bynnag, mae IGDC yn cydnabod bod cyflawni'r manteision hyn yn dibynnu ar reoli risgiau allweddol. Mae'r rhain yn cynnwys diogelwch cleifion, diogelu data, tegwch, tryloywder, ac integreiddio systemau.

29 Fe gymeradwyodd y Bwrdd Strategaeth Deallusrwydd Artiffisial IGDC ym mis Mawrth 2026. Mae'r strategaeth yn nodi sut y mae IGDC yn bwriadu cefnogi defnydd diogel a chyfrifol o ddeallusrwydd artiffisial ar draws GIG Cymru. Mae hefyd yn egluro rôl IGDC o ran helpu cyrff y GIG wrth iddynt fabwysiadu deallusrwydd artiffisial.

30 Ategir y strategaeth gan gynllun cyflawni a map trywydd tair blynedd. Fodd bynnag, nid yw'n nodi'n glir sut y gallai IGDC ddefnyddio deallusrwydd artiffisial i wella ei brosesau mewnol ei hun neu wneud defnydd gwell o amser staff. Hefyd, nid yw'n nodi camau gweithredu eglur, mesurau o lwyddiant, a'r adnoddau y mae eu hangen. Heb hyn, bydd hi'n anos tracio cynnydd a dangos gwerth.

31 Er y gall deallusrwydd artiffisial ddwyn manteision, gall hefyd greu risgiau newydd lle mae digidol yn y cwestiwn. Mae IGDC eisoes yn defnyddio rhai offer deallusrwydd artiffisial risg isel yn fewnol i gefnogi gwaith pob dydd a gwella cynhyrchiant staff. Gan bod y defnydd o ddeallusrwydd artiffisial yn debygol o dyfu, mae angen i IGDC sicrhau bod ei Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn cynnwys y risgiau hyn.

# Sgiliau digidol

## Mae IGDC yn amcanu at gryfhau sgiliau a chadw staff, ond gallai cynnydd araf o ran cyflawni ei gynllun gyfyngu ar ba mor dda y mae'n cefnogi trawsnewid digidol

### Asesu sgiliau digidol

32 Mae IGDC wedi defnyddio Fframwaith Gallu Digidol Cymru Gyfan. Dim ond 34 aelod o staff sydd wedi ei gwblhau hyd yma. Mae'n debygol mai'r rheswm dros hyn yw ei fod yn canolbwyntio ar sgiliau TG sylfaenol ac nad yw'n cwmpasu'r sgiliau digidol uwch y mae ar staff eu hangen.

33 Mae IGDC yn cyflwyno fframwaith newydd ar gyfer staff digidol a data, sy'n seiliedig ar Fframwaith Gallu Proffesiwn Digidol a Data Llywodraeth y DU. Fe wnaed cynnydd, gydag oddeutu 85% o'r asesiad o'r gweithlu wedi'i gwblhau. Ond mae hyn wedi cymryd yn hwy nag a fwriadwyd. Mae gwaith arall, gan gynnwys gweithdy gyda Phenaethiaid Proffesiwn ym mis Ebrill 2026, wedi helpu i adnabod sgiliau pwysig, ac fe gafodd cynllun i fynd i'r afael â bylchau allweddol ei gymeradwyo ym mis Mehefin 2026. Fodd bynnag, mae IGDC yn dal i beidio â deall ei holl anghenion o ran sgiliau digidol yn llawn, ac nid yw'n gallu dangos eto bod ei ddull yn cefnogi trawsnewid digidol. Disgwylir darlun llawnach erbyn mis Medi 2026.

### Datblygu sgiliau digidol

34 Mae IGDC yn ymrwymedig i feithrin gweithlu â sgiliau digidol. Fe amlygodd ei Strategaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol flaenorol yr angen i staff fod â'r sgiliau iawn i gefnogi newid digidol. Mae'r strategaeth gyfredol yn darparu rhagor o fanylion ynghylch sut y mae'n bwriadu cyflawni hyn. Mae hyn yn cynnwys cefnogi dysgu parhaus, datblygu sgiliau digidol a data arbenigol, ac adolygu lefelau sgiliau digidol.

35 Mae IGDC yn bwriadu ymdrin â'r materion hyn a chynorthwyo arweinwyr i reoli newid digidol. Mae ei Lythyr Cylch Gwaith ar gyfer 2026-27 gan Lywodraeth Cymru hefyd yn galw am gynllunio'r gweithlu'n well, gan gynnwys asesu a datblygu sgiliau staff. Ond yr her allweddol yw troi'r cynlluniau hyn yn weithredu a sicrhau goruchwyliaeth effeithiol ar eu cyflawni gan y Bwrdd.

36 Mae IGDC yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i staff a chadw staff â sgiliau digidol oherwydd cystadleuaeth gref, yn enwedig o'r sector preifat. Mae cyllid byrdymor yn arwain at fwy o swyddi dros dro a throsiant staff uwch. Mae hyn yn gwneud y gweithlu'n llai sefydlog ac yn ei gwneud hi'n anos i IGDC gynnal newid digidol.

37 Mae'r Strategaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol yn ceisio datrys y problemau hyn trwy ganolbwyntio ar gadw staff medrus, helpu staff i dyfu, a chynllunio'r gweithlu'n well. Ond megis dechrau y mae'r gwaith hwn. Gallai pwysau o ran y gweithlu barhau i dyfu os nad yw cynnydd yn aros gyfuwch â thwf y sefydliad.

# Cydweithio a chynnwys

## Mae IGDC yn cynnwys staff yn effeithiol mewn trawsnewid digidol. Mae hefyd yn gweithredu'n briodol i leihau allgau digidol a meithrin perthnasoedd cryfach

### Cynnwys staff

38 Mae gan IGDC ffyrdd effeithiol a strwythuredig o gynnwys staff yn ei drawsnewid digidol mewnol. Trwy'r Rhaglen Adeiladu Ein Dyfodol, bu gan staff rôl weithredol o ran siapio'r model gweithredu newydd a'r ffyrdd newydd o weithio. Mae'r rhaglen wedi'i bwriadu hefyd i helpu staff i addasu trwy hyfforddiant mewn gwella ansawdd, gweithio ystwyth, a sgiliau digidol, ochr yn ochr â defnyddio 'hyrwyddwyr' i gefnogi newid diwylliannol.

### Lleihau allgau digidol

39 Mae IGDC yn ymrwymedig i leihau allgau digidol. Mae wedi'i achredu dan y Siarter Cynhwysiant Digidol ac mae wedi penodi Rheolwr Cynhwysiant Digidol i arwain y gwaith yma. Mae ei Strategaeth Sefydliadol a'i Gynllun Tymor Canolig Integredig yn cydnabod bod rhai pobl yn ei chael hi'n anodd defnyddio gwasanaethau digidol ac yn nodi cynlluniau i'w cefnogi. Mae'r CTCI yn nodi camau gweithredu ymarferol i leihau allgau digidol. Mae'r rhain yn cynnwys dylunio gwasanaethau o amgylch anghenion defnyddwyr a gweithio gyda chleifion a'r cyhoedd.

40 Mae IGDC wedi datblygu Cynllun Gweithredu Cynhwysiant Digidol ar wahân hefyd. Mae'n cynnwys blaenoriaethau, camau gweithredu a graddfeydd amser eglur. Mae hefyd yn nodi sut y bydd cynnydd yn cael ei oruchwylio a sut y byddir yn adrodd arno. Fodd bynnag, mae mesurau i asesu a yw allgau digidol yn lleihau'n dal i gael eu datblygu.

41 Mae IGDC wedi dechrau hyfforddi staff ar gynhwysiant a hygyrchedd digidol ac mae wrthi'n datblygu pecynnau cymorth a chanllawiau i helpu timau i ddylunio gwasanaethau digidol mwy cynhwysol. Mae'n gweithio gyda phartneriaid ar ddatrysiadau ymarferol. Er enghraifft, mae'n cydweithio gyda chlystyrau meddygon teulu a grwpiau cymunedol i gefnogi defnydd o Ap GIG Cymru. Mae hefyd yn gweithio gyda llyfrgelloedd a mudiadau gwirfoddol i gefnogi pobl sy'n ei chael hi'n anodd cael mynediad at wasanaethau digidol.

## Gweithio mewn partneriaeth

42 Mae IGDC yn gweithio'n dda gyda'i bartneriaid allweddol fel rheol. Canfu adolygiad annibynnol gan Atos ym mis Ebrill 2024 fod gweithio o ddydd i ddydd yn aml yn effeithiol, ond bod rhai partneriaid yn teimlo nad oeddent wastad yn cael eu cynnwys o adeg ddigon cynnar mewn prosiectau a rhaglenni. Canfu hefyd nad yw IGDC wastad yn deall yn llawn beth yw'r pwysau y maent yn eu hwynebu.

43 Canfu ein Hadolygiad o Drefniadau Ymgysylltu â Rhanddeiliaid yn 2025 fod IGDC yn gweithio'n dda gyda rhanddeiliaid fel rheol a'i fod wedi defnyddio adborth i wella rhai rhaglenni digidol cenedlaethol. Fodd bynnag, nid yw'r dull hwn yn cael ei roi ar waith yn gyson ar draws yr holl raglenni. Canfu ein hadolygiad ni hefyd fod staff sy'n rhan o weithgarwch ymgysylltu dan bwysau ac nad ydynt wastad yn cofnodi, yn rhannu, nac yn defnyddio adborth i roi cymorth i wneud penderfyniadau.

44 Fe ddatblygodd IGDC gynllun gweithredu rhanddeiliaid mewn ymateb i adolygiad Atos, gan gyfuno 75 o gamau gweithredu. Mae 44 yn gamau gweithredu dan arweiniad IGDC sy'n canolbwyntio ar wella'r modd y mae IGDC ei hun yn ymgysylltu, yn cyfathrebu ac yn gweithio. Roedd diweddariad i'r Bwrdd ym mis Tachwedd 2025 yn dangos ei fod wedi cwblhau 70% o'r camau gweithredu a berchnogir gan IGDC, a bod llawer o gamau gweithredu wedi cyrraedd cerrig milltir cyn y dyddiadau cyflawni arfaethedig. Er gwaethaf y gwelliannau hyn, mae'n dal i wynebu heriau mawr o ran gweithio gyda phartneriaid allweddol i gyflawni rhaglenni digidol cenedlaethol.

# Defnyddio datblygiadau digidol i roi cymorth i drawsnewid gwasanaethau

## Mae ffocws IGDC ar gyflawni cenedlaethol yn cyfyngu ar y sylw a roddir i drawsnewid mewnol. Ar y cyd â chyllid ansicr a heriau o ran cyflawni, mae hyn yn lleihau hyder yn yr effaith a'r gwerth a gyflawnir

### Buddsoddi mewn trawsnewid digidol

45 Mae buddsoddi mewn trawsnewid digidol yn rhan bwysig o rôl a chynlluniau IGDC. Mae'r CTCI yn amlinellu ei gynlluniau i fuddsoddi mewn systemau a seilwaith digidol cenedlaethol ledled Cymru. Fodd bynnag, mae pwysau ariannol ac ansicrwydd ynghylch cyllid yn y dyfodol yn ei gwneud hi'n anos i IGDC gyflawni'r gwelliannau hyn â hyder.

46 Mae cryn dipyn o'r cyllid ar gyfer rhaglenni digidol cenedlaethol yn fyrdymor ac yn dod o'r Gronfa Buddsoddi mewn Blaenoriaethau Digidol. Mae IGDC yn cael cyllid blynyddol craidd hefyd i gefnogi ei weithgareddau cyflawni eraill. Fodd bynnag, nid yw'r Strategaeth Sefydliadol, y CTCI, ac adroddiadau cyllid rheolaidd yn dangos yn glir faint o gyllid a ddyrennir i welliannau digidol mewnol IGDC ei hun neu a gaiff ei wario arnynt. O ganlyniad, nid oes gan y Bwrdd olwg glir ar fuddsoddi, fforddiadwyedd, a gwerth am arian yn fewnol.

47 Ar yr un pryd, mae gwariant IGDC ar wasanaethau digidol wedi cynyddu, sydd i raddau helaeth yn adlewyrchu cost barhaus cynnal systemau cenedlaethol. Mae cyfran sylweddol o gyllid refeniw felly'n cael ei neilltuo i staffio, cyflenwyr, a gwasanaethau cwmwl, sy'n lleihau hyblygrwydd i fuddsoddi yn ei systemau a'i ddulliau gweithio mewnol ei hun.

## Trawsnewid digidol lleol

48 Rhan allweddol o drawsnewid digidol mewnol IGDC yw newid i fodel gweithredu cynnyrch. Mae hyn i fod i helpu'r sefydliad i ddarparu gwasanaethau digidol mewn ffordd fwy cyson a chynaliadwy. Daeth y gwaith hwn yn rhan o'r Rhaglen Adeiladu Ein Dyfodol yn 2024. Roedd nodau eglur i'r rhaglen. Roedd y rhain yn cynnwys gwella sgiliau digidol, moderneiddio systemau digidol, datblygu un platfform dysgu digidol, defnyddio deallusrwydd artiffisial yn fwy, a dwyn gwerth gwell. Er bod y cyfeiriad ar y cyfan yn glir, nid oedd rhyw lawer o fanylder ar y dechrau ynglŷn â llinellau amser, cerrig milltir allweddol, na sut y byddai llwyddiant yn cael ei fesur. Roedd hyn yn ei gwneud hi'n anodd gwybod pryd y byddai canlyniadau'n cael eu cyflawni neu sut y byddid yn barnu faint o gynnydd oedd yn cael ei wneud.

49 Mae ein hadroddiadau Asesu Strwythuredig rhwng 2023 a 2025 yn dangos cynnydd araf. Yn 2023, dechreuodd gwaith yn araf ond nid oedd dyddiad cwblhau wedi'i bennu. Yn 2024, roedd cynnydd yn dal i fod yn araf oherwydd diffyg adnoddau, pwysau staffio, a graddfa'r newidiadau yr oedd eu hangen. Erbyn 2025, roedd cynnydd wedi gwella, ond roedd risgiau mawr yn dal i fodoli. Roedd y cyfeiriad yn glir, ond graddol oedd y gwelliant. Ni oedd IGDC yn darparu rhyw lawer o sicrwydd ynghylch pa mor gyflym y byddai deilliannau'n digwydd na pha effaith y byddent yn ei chael.

50 Fe gaeodd y Rhaglen Adeiladu Ein Dyfodol tuag at ddiwedd 2025. Fe gytunodd y Bwrdd ei fod wedi cyrraedd ei phrif nodau. Fe gyflawnodd welliannau fel Porth Dysgu Digidol, proffiliau swyddi wedi'u diweddaru, newidiadau o ran Deallusrwydd Artiffisial, gweithio'n fwy ystwyth, Tîm Dylunio sy'n Canolbwyntio ar Ddefnyddwyr, ac un pwynt mynediad ar gyfer ceisiadau data. Ond roedd peth gwaith yn dal i fynd rhagddo. Nid oedd yn glir pwy ddylai orffen y gwaith na sut i dracio manteision hirdymor. O ganlyniad, mae angen rhagor o waith i wreiddio newidiadau a gwneud yn siŵr bod y manteision yn para.

## Darparu systemau digidol cenedlaethol

51 Mae Strategaeth Sefydliadol a Chynllun Tymor Canolig Integredig IGDC yn cyd-fynd yn dda â pholisi cenedlaethol ac yn ategu dull ‘Unwaith i Gymru’ o ran darpariaeth ddigidol. Mae hyn yn golygu canolbwyntio ar systemau digidol a rennir ar gyfer y GIG yng Nghymru yn ei gyfanrwydd, yn hytrach na systemau ar wahân ar gyfer pob sefydliad. Y nod yw defnyddio safonau cyffredin a darparu datrysiadau cenedlaethol lle maent yn ychwanegu gwerth.

52 Mae IGDC yn darparu ystod eang o wasanaethau digidol cenedlaethol sy’n ategu gofal iechyd o ddydd i ddydd ledled Cymru. Mae hefyd yn gyfrifol am gefnogi ystod uchelgeisiol o raglenni digidol cenedlaethol. Mae rhai o’r rhaglenni hyn yn mynd rhagddynt yn dda, ond mae eraill yn wynebu heriau sylweddol. O ran y sefyllfa ym mis Chwefror 2026, roedd llawer o raglenni ar ei hôl hi neu’n wynebu anawsterau, gan gynnwys:

- y System Rheoli Gwybodaeth Labordy, y bu oedi gyda hi ac sy’n costio mwy nag a fwriadwyd (fe amcangyfrifwyd yn wreiddiol y byddai’n costio mwy na £42 miliwn yn 2018);
- caffael System Wybodeg ar gyfer Radioleg, sydd hefyd ar ei hôl hi (rhaglen sy’n rhedeg o 2019 tan 2025, yr amcangyfrifwyd yn wreiddiol y byddai’n costio dros £60 miliwn);
- rhaglen Ap GIG Cymru, y bu oedi gyda hi oherwydd cyllid ansicr a dibyniaeth ar systemau allanol; a
- System Wybodaeth Gofal Dwys Cymru, lle bu saib ar waith datblygu tra bo penderfyniad yn cael ei wneud ynglŷn â pharhau neu beidio.

53 Mae’r heriau hyn yn rhoi pwysau ar IGDC o ran rheoli costau cynyddol a newid graddfeydd amser ar gyfer cyflawni. Maent hefyd yn rhoi galwadau ychwanegol ar fyrddau iechyd, y mae angen iddynt neilltuo amser staff i helpu i brofi a gweithredu’r systemau hyn yn lleol.

54 Gall oedi parhaus a newidiadau effeithio ar berthnasoedd gweithio, yn enwedig pan fo rhaglenni'n cymryd yn hwy na'r disgwyl neu'n newid yn fynych. Gall hyn ohirio neu leihau'r manteision. Gall hefyd effeithio ar hyder yng ngallu IGDC i gyflawni rhaglenni digidol cenedlaethol mawr. Rydym yn bwriadu archwilio achosion y materion hyn mewn mwy o fanylder fel rhan o adolygiad digidol cenedlaethol a fydd yn dechrau yn hwyrach eleni.

## Gwerthuso datrysiadau digidol

55 Mae gan IGDC drefniadau i werthuso systemau cenedlaethol a mewnol. Ei Awdurdod Dylunio Technegol (TDA) sy'n pennu'r egwyddorion a'r safonau ar gyfer datblygu systemau newydd, a'i Grŵp Sicrwydd (TDAG) sy'n adolygu dyluniadau yn erbyn y gofynion hyn. Fodd bynnag, ni welsom dystiolaeth eglur i ddynodi sut y mae hyn yn cael ei gymhwyso na sut yr adroddir arno yn ymarferol ar gyfer datblygiadau mewnol, sy'n cyfyngu ar amlygrwydd a sicrwydd. Mae IGDC hefyd yn profi systemau gyda staff, cleifion a defnyddwyr gwasanaethau i wirio eu bod yn hawdd i'w defnyddio, ac mae'r Bensaernïaeth Darged Genedlaethol yn nodi sut y dylai systemau weithio gyda'i gilydd a chael eu diweddaru'n ddiogel. Ar lefel rhaglen a chynnyrch y mae'r trefniadau hyn yn gweithio orau, lle mae cyflawni, risgiau a defnyddioldeb yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Fodd bynnag, nid yw manteision hirdymor yn cael eu mesur cystal ar gyfer gwaith mewnol.

56 Mae'r mater hwn i'w weld yn y modd y caewyd y Rhaglen Adeiladu Ein Dyfodol. Fe gyflwynodd y rhaglen strwythurau a fframweithiau pwysig, gan gynnwys model manteision seiliedig-ar-werthoedd. Fodd bynnag, roedd gwaith i ddangos manteision yn dal i fynd rhagddo pan ddaeth y rhaglen i ben. Fe gaeodd y rhaglen cyn bod manteision hirdymor wedi cael eu dangos. O ganlyniad, cyfyngedig yw'r dystiolaeth o'i heffaith ar y cyfan.

# Argymhellion

57 Rydym wedi gwneud chwe argymhelliad i ymdrin â'r materion allweddol yn yr adroddiad hwn.

**A1** Dylai IGDC ddatblygu mesurau, cerrig milltir, a deilliannau disgwyliedig eglur ar gyfer rhaglenni a phrosiectau trawsnewid digidol mewnol. (**Paragraff 13**)

**A2** Dylai IGDC ddatblygu cynllun cynhwysfawr, wedi'i gostio ar gyfer gwella ei seilwaith digidol mewnol, gan nodi blaenoriaethau, cerrig milltir, graddfeydd amser, a dibyniaethau ar wahân i ymrwymiadau cyflawni cenedlaethol. (**Paragraff 21**)

**A3** Dylai IGDC gryfhau ei ddull o asesu a datblygu sgiliau digidol trwy wneud y canlynol:

A3.1 Dangos sut y mae ei fframweithiau sgiliau digidol a data'n cael eu defnyddio'n weithredol i adnabod bylchau o ran sgiliau a gwella gallu'r gweithlu. (**Paragraffau 32 a 33**)

A3.2 Sicrhau bod y Bwrdd yn cael adroddiadau eglur, rheolaidd ar gyflawni, risgiau ac effaith gynnar blaenoriaethau o ran sgiliau digidol. (**Paragraffau 34 a 35)**

**A4** Dylai IGDC nodi'n glir sut y bydd trawsnewid digidol mewnol yn y dyfodol yn cael ei gyllido, gan gynnwys sut y bydd buddsoddiad yn cael ei flaenoriaethu ochr yn ochr ag ymrwymiadau digidol cenedlaethol ac yn cael ei reoli o fewn cyfyngiadau ariannol presennol. (**Paragraff 46**)

**A5** Yn dilyn cau'r rhaglen, dylai IGDC ddiffinio atebolrwydd, cerrig milltir a graddfeydd amser eglur ar gyfer cwblhau'r datblygiadau digidol mewnol sy'n weddill o'r Rhaglen Adeiladu Ein Dyfodol. (**Paragraff 50**)

**A6** Dylai IGDC gryfhau'r modd y mae datblygiadau / rhaglenni digidol mewnol yn cael eu gwerthuso trwy asesu manteision, costau a gwerth am arian, ac adrodd ar hyn wrth y pwyllgor priodol. (**Paragraff 57**)

# Atodiadau

# 1 Ynglŷn â’n gwaith

## Cwmpas yr archwiliad

Nod yr archwiliad hwn yw canfod a yw IGDC yn defnyddio technoleg ddigidol i roi cymorth i foderneiddio gwasanaethau ac ategu eu heffeithlonrwydd. Roedd hyn yn cynnwys y dull o ddatblygu strategaeth, arweinyddiaeth a sgiliau ar gyfer trawsnewid digidol, a sut y mae risgiau o ran y seilwaith digidol, seibergadernid a deallusrwydd artiffisial yn cael eu rheoli.

## Cwestiynau a meini prawf archwilio

### Cwestiynau

Fe ymdriniodd ein harchwiliad â’r cwestiynau canlynol:

- A oes gan IGDC ddull trawsnewid digidol a arweinir yn dda ac y darperir adnoddau priodol ar ei gyfer?
- A yw IGDC yn datblygu sgiliau, capasiti, a gallu digidol ei weithlu?
- A oes gan IGDC gynllun eglur ar gyfer rheoli ei drefniadau seibergadernid a’i seilwaith digidol a sut y bydd angen iddynt newid i ategu ei uchelgeisiau trawsnewid digidol?
- A yw IGDC yn ymgysylltu’n effeithiol â staff, partneriaid, cleifion / defnyddwyr gwasanaethau i wireddu ei uchelgeisiau trawsnewid digidol a lleihau i’r eithaf risgiau o allgau digidol?
- A yw IGDC wrthi’n frwd yn defnyddio technoleg ddigidol a datrysiadau data newydd i wella hygyrchedd, ansawdd, effeithlonrwydd a chynhyrchiant ei wasanaethau?

### Meini Prawf

Cafodd ein cwestiynau archwilio eu siapio gan:

- Fewnbwn cyfeirio allanol gan Lywodraeth Cymru, Cyfarwyddwyr Digidol y GIG Cymru Gyfan, ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru.
- Strategaethau a chynlluniau perthnasol gan Lywodraeth Cymru.
- Adroddiadau adolygu perthnasol ar Drawsnewid Digidol yn y GIG a gwblhawyd gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, a Phwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol Tŷ'r Cyffredin.
- Papur polisi Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol y GIG yn Lloegr: A plan for digital health and social care.
- Fframwaith Cyfarwyddiaeth Drawsnewid y GIG yn Lloegr: What good looks like.

## Dulliau

Fe ofynnom ni i IGDC:

- Gwblhau hunanasesiad i'n helpu i ddeall sut y mae'r sefydliad yn cyflawni trawsnewid digidol.
- Rhoi ffeithiau a ffigyrau i ni am ei wariant ar dechnoleg ddigidol, sgiliau digidol ei staff, ei seibergadernid, a sut y mae'n cynnwys pobl mewn trawsnewid digidol.

Fe wnaethom adolygu ystod o ddogfennau, gan gynnwys:

- Papurau a chofnodion y Bwrdd a phwyllgorau.
- Dogfennau llywodraethu allweddol, gan gynnwys Adroddiadau Blynyddol, Blaengynlluniau'r Bwrdd a Phwyllgorau, Cynlluniau Prosiectau, Tystiolaeth i gyfarfod Atebolrwydd Llywodraeth Cymru.
- Strategaethau a chynlluniau allweddol, gan Strategaeth Sefydliadol 2024-30, CTCI 2025-28, Strategaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol 2022-25 a 2026-30, Strategaeth Deallusrwydd Artiffisial 2026-29.
- Dogfennau rheoli risg allweddol, gan gynnwys Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol.

Fe wnaethom gyfweld â'r rhanddeiliaid allweddol canlynol:

- Is-Gadeirydd Interim
- Prif Weithredwr

- Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth Ddigidol
- Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau
- Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol/Prif Swyddog Gwybodaeth Glinigol Cymru
- Cyfarwyddwr Gwasanaethau Digidol Gofal Sylfaenol, Cymunedol ac Iechyd Meddwl

Fe wnaethom arsylwi ar gyfarfodydd y Bwrdd yn ogystal â chyfarfodydd y pwyllgorau canlynol:

- Pwyllgor Cyflawni Rhaglenni
- Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol
- Bwrdd yr Awdurdod Iechyd Arbennig

# 2 Ffurflen Ymateb y Rheolwyr

| Cyf | Argymhelliad | Sylwebaeth ar y camau gweithredu arfaethedig | Dyddiad cwblhau ar gyfer y camau gweithredu arfaethedig | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| **A1** | Dylai IGDC ddatblygu mesurau, cerrig milltir, a deilliannau disgwyliedig eglur ar gyfer rhaglenni a phrosiectau trawsnewid digidol mewnol. **(Paragraff 13)** | Roedd pontio o weithio seiliedig-ar-brosiectau i gyflawni ystwyth parhaus yn elfen allweddol o'r rhaglen Adeiladu Ein Dyfodol. Mae IGDC wedi pontio trawsnewid mewnol o gyflawni seiliedig-ar-brosiectau i gyflawni ystwyth. Mae gweithgareddau trawsnewid digidol mewnol yn cael eu cyflawni trwy 'Un Ffordd o Weithio'. Bydd cam cyntaf Un Ffordd o Weithio wedi'i gwblhau erbyn 3ydd chwarter 2026/27. Bydd allbynnau'r gwaith hwn yn cael eu tracio a'u mesur i sicrhau bod cerrig milltir yn cael eu cyrraedd a deilliannau disgwyliedig yn cael eu cyflawni. | Rhagfyr 2026 | Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth |
| **A2** | Dylai IGDC ddatblygu cynllun cynhwysfawr, wedi'i gostio ar gyfer gwella ei seilwaith digidol mewnol, gan nodi blaenoriaethau, cerrig milltir, graddfeydd amser, a dibyniaethau ar wahân i | Gan adeiladu ar fentrau presennol sydd ar y gweill, bydd IGDC yn ystyried Un Ffordd o Weithio fel rhan o'r cylch cynllunio nesaf. Yn gyson â chamau gweithredu arfaethedig i ymdrin ag A1, bydd y cynllun yn cael ei ddatblygu, ei gostio a'i integreiddio fel rhan o brosesau cynllunio IGDC | Mawrth 2027 | Cyfarwyddwr Gweithredol Interim Cyllid |

| Cyf | Argymhelliad | Sylwebaeth ar y camau gweithredu arfaethedig | Dyddiad cwblhau ar gyfer y camau gweithredu arfaethedig | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| | ymrwymiadau cyflawni cenedlaethol. **(Paragraff 21)** | sy'n bodoli eisoes. Bydd yn asesu opsiynau ac yn adnabod blaenoriaethau buddsoddi yn seiliedig ar gydweddiad strategol, risg, fforddiadwyedd, gwerth a manteision disgwyliedig. Bydd y cynllun wedi'i gostio'n nodi cerrig milltir, graddfeydd amser, dibyniaethau a threfniadau atebolrwydd a fydd ar wahân i ymrwymiadau rhaglenni digidol cenedlaethol. | | |
| **A3** | Dylai IGDC gryfhau ei ddull o asesu a datblygu sgiliau digidol trwy wneud y canlynol: | Gweler isod. | | Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol |
| **A3.1** | Dangos sut y mae ei fframweithiau sgiliau digidol a data'n cael eu defnyddio'n weithredol i adnabod bylchau o ran sgiliau a gwella gallu'r gweithlu. **(Paragraffau 32 a 33)** | Darparu adroddiadau chwemisol ar gyfer Cyfarwyddwyr Gweithredol sy'n dangos sut y mae'r Fframwaith Sgiliau Digidol a Data'n cael ei ddefnyddio i asesu gallu, adnabod bylchau o ran sgiliau, a goleuo penderfyniadau ynglŷn â chynllunio a datblygu'r gweithlu. | Ionawr 2027 | Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol |

| Cyf | Argymhelliad | Sylwebaeth ar y camau gweithredu arfaethedig | Dyddiad cwblhau ar gyfer y camau gweithredu arfaethedig | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| **A3.2** | Sicrhau bod y Bwrdd yn cael adroddiadau eglur, rheolaidd ar gyflawni, risgiau ac effaith gynnar blaenoriaethau o ran sgiliau digidol. **(Paragraffau 34 a 35)** | Bydd adroddiadau Pobl a Diwylliant chwarterol i'r Bwrdd Rheoli'n cynnwys diweddariadau ar flaenoriaethau o ran sgiliau digidol, cyflawni ac effaith blaenoriaethau o ran sgiliau digidol, yn ogystal â risgiau cysylltiedig i gyflawni, ynghyd â chamau lliniarol a chynnydd gyda hwy. | Tachwedd 2026 | Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol |
| **A4** | Dylai IGDC nodi'n glir sut y bydd trawsnewid digidol mewnol yn y dyfodol yn cael ei gyllido, gan gynnwys sut y bydd buddsoddiad yn cael ei flaenoriaethu ochr yn ochr ag ymrwymiadau digidol cenedlaethol ac yn cael ei reoli o fewn cyfyngiadau ariannol presennol. **(Paragraff 46)** | Trwy ei Gylch Oes Arfarnu Buddsoddiadau, bydd IGDC yn sefydlu dull tryloyw o gyllido a blaenoriaethu trawsnewid digidol mewnol ochr yn ochr ag ymrwymiadau cenedlaethol. Bydd penderfyniadau buddsoddi'n cael eu hategu gan achosion busnes a ddatblygir, asesiadau fforddiadwyedd, camau i reoli manteision a gwaith i werthuso gwerth am arian. Bydd rhoi'r dull hwn ar waith yn rhoi mwy o amlygrwydd i ofynion cyllid cyfalaf a refeniw ar gyfer buddsoddiadau mewnol a blaenoriaethau cyflawni o fewn yr adnoddau sydd ar gael a'r cyfyngiadau ariannol. | Mawrth 2027 | Cyfarwyddwr Gweithredol Interim Cyllid |

| Cyf | Argymhelliad | Sylwebaeth ar y camau gweithredu arfaethedig | Dyddiad cwblhau ar gyfer y camau gweithredu arfaethedig | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| **A5** | Yn dilyn cau'r rhaglen, dylai IGDC ddiffinio atebolrwydd, cerrig milltir a graddfeydd amser eglur ar gyfer cwblhau'r datblygiadau digidol mewnol sy'n weddill o'r Rhaglen Adeiladu Ein Dyfodol. **(Paragraff 50)** | Bydd cam cyntaf Un Ffordd o Weithio'n parhau â'r datblygiadau trawsnewid sy'n weddill o'r Rhaglen Adeiladu Ein Dyfodol ac yn cwblhau'r rheiny'n sylweddol (o safbwynt cau'r rhaglen), a hynny erbyn 3ydd Chwarter 2026/27. Bydd y camau gweithredu sy'n dal heb eu cymryd o'r Rhaglen Adeiladu Ein Dyfodol yn parhau i gael eu tracio trwy'r Bwrdd Rheoli. Hefyd, bydd allbynnau'r gwaith Un Ffordd o Weithio'n cael eu tracio a'u mesur i sicrhau bod cerrig milltir yn cael eu cyrraedd a deilliannau disgwyliedig yn cael eu cyflawni. | Rhagfyr 2026 | Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth |

| Cyf | Argymhelliad | Sylwebaeth ar y camau gweithredu arfaethedig | Dyddiad cwblhau ar gyfer y camau gweithredu arfaethedig | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| **A6** | Dylai IGDC gryfhau'r modd y mae datblygiadau / rhaglenni digidol mewnol yn cael eu gwerthuso trwy asesu manteision, costau a gwerth am arian, ac adrodd ar hyn wrth y pwyllgor priodol. **(Paragraff 57)** | Bydd IGDC yn rhoi blaenoriaeth i gryfhau'r modd y mae'n gwerthuso datblygiadau digidol mewnol ac allanol, trwy asesu manteision, cost a gwerth, gan gynnwys gwerthuso gweithgarwch cyflawni ystwyth / cynnyrch yn fewnol.<br><br>Bydd IGDC yn cwblhau adolygiad o sut y mae'n gwerthuso costau, manteision a gwerth trawsnewid mewnol fel rhan o'i ddull diwygiedig o ymdrin â manteision a gwerth yn gyffredinol. Bydd hyn yn cynnwys gwerthuso gweithgarwch cyflawni ystwyth / cynnyrch ochr yn ochr â modelau cyflawni prosiectau a rhaglenni. | Ionawr 2027 | Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth |

# 3 Termau allweddol yn yr adroddiad hwn

| Term | Disgrifiad |
|---|---|
| **Awdurdod Dylunio Technegol** | Corff llywodraethu allweddol a sefydlwyd i oruchwylio agweddau ar wasanaethau digidol cenedlaethol sy'n ymwneud â dylunio, technoleg a seiberddiogelwch yn GIG Cymru. |
| **Caffael System Wybodaeth ar gyfer Radioleg (RISP)** | Rhaglen ddigidol genedlaethol sydd wedi'i bwriadu i ddisodli a moderneiddio'r holl systemau gwybodeg craidd ar gyfer radioleg ar draws pob Bwrdd Iechyd yw Caffael System Wybodaeth ar gyfer Radioleg (RISP). |
| **Cofrestr Risgiau Corfforaethol** | Mae Cofrestr Risgiau Corfforaethol yn nodi risgiau arwyddocaol y sefydliad (naill ai'r rhai â sgoriau uchel neu ag effaith ar draws y sefydliad cyfan) a'r camau gweithredu sydd yn eu lle i'w rheoli. |
| **Cronfa Flynyddol ar gyfer Blaenoriaethau Cenedlaethol** | Pot o gyllid gan Lywodraeth Cymru a ddefnyddir i gefnogi blaenoriaethau cenedlaethol y GIG yng Nghymru am un flwyddyn ariannol yw'r Gronfa Flynyddol ar gyfer Blaenoriaethau Cenedlaethol. Fe'i dyrennir fel arfer ar sail fyrdymor, flynyddol i helpu i gyflawni rhaglenni sy'n flaenoriaeth, gan gynnwys mentrau digidol cenedlaethol. |
| **Cynllun Tymor Canolig Integredig** | Cynllun tair blynedd yw Cynllun Tymor Canolig Integredig sy'n nodi sut y bydd y sefydliad yn darparu ei wasanaethau, yn rheoli ei weithlu, ac yn cyflawni ei ddyletswyddau ariannol i adennill costau. Mae'r sefydliad yn cyflwyno ei gynllun i Lywodraeth Cymru i gael ei gymeradwyo. |

| Term | Disgrifiad |
|---|---|
| **Deallusrwydd Artiffisial** | Ystyr deallusrwydd artiffisial (AI) yw gallu peiriannau, systemau cyfrifiadurol, neu robotiaid i ddynwared deallusrwydd, a phrosesau dysgu a phenderfynu, dynol i gyflawni tasgau penodol. |
| **Fframwaith Asesu Seiber (CAF)** | Offeryn gan y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol sydd wedi'i fwriadu i helpu sefydliadau, yn enwedig y rhai mewn seilwaith critigol fel ynni, iechyd a thrafnidiaeth, i asesu eu seibergadernid yw'r Fframwaith Asesu Seiber. |
| **Fframwaith Gallu Digidol AaGIC** | Model cenedlaethol sy'n amlinellu'r sgiliau, ymddygiadau a hyder digidol y mae ar staff iechyd a gofal eu hangen, a'r rheiny wedi'u trefnu'n chwe maes gallu gydag offeryn hunanasesu ar gyfer datblygu. |
| **Fframwaith Gallu Proffesiwn Digidol a Data'r Llywodraeth** | Fframwaith gan Lywodraeth y DU sy'n nodi sut y mae sgiliau digidol a data da yn edrych i bobl sy'n gweithio mewn rolau digidol yw Fframwaith Gallu Proffesiwn Digidol a Data'r Llywodraeth. |
| **Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd** | Offeryn strwythuredig, strategol a ddefnyddir gan fyrddau i fonitro risgiau sy'n fygythiad i gyflawni amcanion corfforaethol yw Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn y GIG. |
| **Model Gweithredu Cynnyrch** | Dull lle mae sefydliadau'n trefnu eu gwaith ar sail cynhyrchion neu wasanaethau digidol parhaus, yn hytrach na phrosiectau byrdymor, yw model gweithredu cynnyrch. |

| Term | Disgrifiad |
|---|---|
| **Mozaic** | Ymgynghoriaeth annibynnol sy'n cynorthwyo sefydliadau i asesu a gwella strategaeth, cyflawni a gweithrediadau yw Mozaic. |
| **Rhaglen Adeiladu Ein Dyfodol** | Rhaglen newid sefydliad cyfan IGDC yw'r Rhaglen Adeiladu Ein Dyfodol. Mae wedi'i strwythuro ar sail pum prosiect, y mae ganddynt i gyd nodau a deilliannau bwriadedig eglur, megis gwella sgiliau digidol, moderneiddio systemau a dwyn gwerth gwell. |
| **Rheoliadau Systemau Rhwydwaith a Gwybodaeth (NIS) 2018** | Mae Rheoliadau Systemau Rhwydwaith a Gwybodaeth 2018 wedi'u bwriadu i wella seiberddiogelwch a seibergadernid systemau sy'n darparu gwasanaethau hanfodol. |
| **System Rheoli Gwybodaeth Labordy (LIMS)** | System ddigidol unedig sydd wedi'i bwriadu i reoli data a llifoedd gwaith samplau patholeg ar draws yr holl fyrddau iechyd ac ysbytai yw'r System Rheoli Gwybodaeth Labordy yn GIG Cymru. |
| **Uned Seibergadernid (CRU)** | Tîm annibynnol a sefydlwyd yn 2021 ac a letyir gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru (IGDC) sy'n gyfrifol am weithredu a monitro'r rheoliadau Systemau Rhwydwaith a Gwybodaeth i hybu seiberddiogelwch ar draws sector iechyd Cymru yw Uned Seibergadernid GIG Cymru. |
| **Unwaith i Gymru** | Dull cenedlaethol yn GIG Cymru lle mae system, proses neu safon ddigidol yn cael ei dylunio, ei chaffael a'i rhoi ar waith unwaith ar lefel genedlaethol, yn hytrach na bod pob Bwrdd Iechyd yn creu ei fersiwn ei hun. |

| Term | Disgrifiad |
|---|---|
| **Y Gymdeithas Systemau Gwybodaeth a Rheoli Gofal Iechyd (HIMSS)** | Sefydliad dielw byd-eang yw'r Gymdeithas Systemau Gwybodaeth a Rheoli Gofal Iechyd (HIMSS) sy'n ymroddedig i wella iechyd trwy'r defnydd gorau o dechnoleg gwybodaeth a systemau rheoli. |

# Amdanom ni

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru'n annibynnol ar Lywodraeth Cymru a'r Senedd. Rôl yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilio cyfrifon Llywodraeth Cymru, y GIG yng Nghymru a chyrff cyhoeddus cysylltiedig eraill, ynghyd â chyfrifon cynghorau a chyrff eraill mewn llywodraeth leol, ac adrodd ar y rhain. Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn adrodd ar ddefnydd y sefydliadau hyn o adnoddau ac yn awgrymu ffyrdd y gallant wella.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud ei waith gyda chymorth staff ac adnoddau eraill gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n gorff a sefydlwyd i gefnogi'r Archwilydd Cyffredinol, ei gynghori a monitro ei waith.

Archwilio Cymru yw'r term ymbarél a ddefnyddir ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r rhain yn endidau cyfreithiol ar wahân a chanddynt y rolau gwahanol a amlinellir uchod. Nid yw Archwilio Cymru ei hun yn endid cyfreithiol.

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.